**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

**Memorandum Cywiriadau (RHEOL SEFYDLOG 22.13)**

# Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Atgyfeiriadau ac Apelau) (Gweithdrefn Sylwadau Ysgrifenedig) (Cymru) 2003

## Y Cefndir

Cafodd y Rheoliadau drafft hyn eu hystyried gan y Pwyllgor Busnes ar 17 Rhagfyr 2002, eu gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 29 Ionawr 2003 a'u hystyried gan y Pwyllgor Deddfau ar 11 Chwefror 2003.

Cytunodd y Pwyllgor Deddfau ei bod yn briodol, drwy Femorandwm Cywiriadau, i gywiro'r mân wall drafftio a nodir isod, fel a ganlyn :

## Y cywiriad

**Rheoliad 2**

(a) rhodder "mae cyfeiriadau at adran 78 o'r Ddeddf Gynllunio yn cynnwys cyfeiriad at yr adran honno fel y'i cymhwysir i geisiadau a materion eraill sy'n ymwneud â gorchmynion cadw coed a wneir o dan y Ddeddf honno**(b)**" yn lle "mae cyfeiriadau at adran 78 o'r Ddeddf Gynllunio yn cynnwys cyfeiriad at yr adran honno fel y'i cymhwysir i geisiadau am orchymynion cadw coed a wneir o dan y Ddeddf honno";

(b) ychwaneger, fel troednodyn i'r cyfeiriad a amnewidiwyd ac a nodir yn (a) : "**(b)** Cymhwysir adran 78 mewn perthynas â gorchmynion cadw coed gan Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Coed) 1999 (S.I. 1999/1892)".

Sue Essex AC
Y Gweinidog dros yr Amgylchedd